Cofnodion **CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd yn hybrid nos Fercher, 20 Tachwedd 2024, am 6.00pm.

**<u>PRESENNOL</u>**

Y Cynghorydd Miss C. L. Williams (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, W. Price, D. Simmons ac A. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 71. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Arweiniodd Caplan y Maer, y Tad Anthony Nnamah MSP, bawb a oedd yn dymuno cymryd rhan, mewn gweddi.

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, Miss S. Fleming, B. Mellor, Ms R. Roberts, Ms V. Roberts ac A. J. Rutherford.

## 72. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd Clerc y Dref a oedd gan aelodau unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu i'w datgan yng nghyswllt unrhyw un o'r eitemau busnes i'w hystyried ar yr agenda?

Datganodd y Cynghorydd Mrs D. L. King fuddiant personol ac sy'n rhagfarnu yn eitem agenda rhif 5 (Cyflwyniad: Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig – Calendr Digwyddiadau 2025), gan ei bod yn aelod o Fwrdd Cyfarwyddwyr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig. Byddai'n gadael y cyfarfod ar y pwynt hwnnw ac yn dychwelyd ar gyfer yr eitem ganlynol.

## 73. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd isod y Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnodion cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 16 Hydref 2024 - Cofnodion rhifau 56-70

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. Walker a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 16 Hydref 2024 - Cofnodion rhifau 23-25

Cynigiwyd gan y Cynghorydd D. Simmons ac eiliwyd gan y Cynghorydd S. Feeney a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 6 Tachwedd 2024 - Cofnodion rhifau 26-28

Cynigiwyd gan y Cynghorydd D. Simmons ac eiliwyd gan y Cynghorydd S. Feeney a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol | - | 6 Tachwedd 2024 | - | Cofnodion rhifau 51-61 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir a'u cadarnhau i'w gweithredu.*

**74. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**75. CYFLWYNIAD: HAMDDEN SIR DDINBYCH CYFYNGEDIG – CALENDR DIGWYDDIADAU 2025**

Croesawodd y Maer Mr Jamie Groves a Mr Gwyn Hughes o Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig i'r cyfarfod, a'u gwahodd i roi diweddiariad i'r aelodau, mewn cyfrinachedd, ar sefyllfa'r cwmni o ran y digwyddiadau maen nhw'n eu trefnu ar ran Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Tref y Rhyl, sef y Sioe Awyr, Penwythnos Hwyl yr Haf a'r 'Pops' Nadolig a digwyddiad goleuo'r goleuadau Nadolig.

Cadarnhaodd Mr Groves ei fod wedi bod mewn cyfarfod gyda Chyngor Sir Ddinbych erbyn hyn a chynghorodd ynghylch lefel cyfraniad y Cyngor Sir tuag at y digwyddiadau uchod yn 2025, er mwyn hysbysu'r Cyngor Tref yn well cyn iddo ystyried lefel ei gyfraniad.

Holodd Mr Groves yr aelodau a fyddent yn hoffi parhau â'r rhaglen gyfredol neu a fyddent yn hoffi i Hamdden Sir Ddinbych gyflwyno cynigion newydd ar gyfer y flwyddyn nesaf?

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol ym mis Rhagfyr, ac i'r aelodau ystyried lefel y cyfraniad roedd y Cyngor Tref yn ddymuno ei wneud i ddigwyddiadau Hamdden Sir Ddinbych y flwyddyn nesaf.*

**76. SESIWN AGORED**

Parhaodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

**77. ADRODDIAD Y MAER**

Cyflwynodd y Maer fanylion y digwyddiadau yr oedd hi a'r Dirprwy Faer wedi bod ynddynt yn ystod y mis diwethaf, a chyfeiriodd yn benodol at agoriad Gŵyl Ffilm Ieuenctid Rhyngwladol Wicked Wales yn Stiwdios Wicked Wales ar Ffordd y Morfa, a oedd yn ddigwyddiad rhagorol.

Dywedodd y Dirprwy Faer rei bod wedi mwynhau'r goelcerth a'r arddangosfa tân gwyllt ym maes y Sioe a nododd fod y presenoldeb eleni 40% yn uwch.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 78. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

| Rhif taleb | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1928 | Canda Copying Ltd | Rhentu'r llungopïwr | 259.32 |
| 1929 | Canda Copying Ltd | Ffioedd y llungopïwr | 84.68 |
| 1930 | Pottles Premier Plants Ltd | Bylbiau cennin pedr | 324.00 |
| 1931 | Sandra Williams | Gwasanaethau cyfieithu | 1,243.50 |
| 1932 | Core Highways (Signs) Ltd / JTM | Arwyddion a rheoli'r traffig – Sul y Cofio | 1,460.50 |
| 1933 | Highline Electrical Ltd | Archwilio'r bolltiau llygad | 806.40 |
| 1934 | Y Cynghorydd C. L. Williams | Treuliau'r Maer | 23.40 |
| 1935 | Ambiwlans Urdd Sant Ioan | Cyfraniad – Sul y Cofio | 130.00 |
| 1936 | Band Arian y Rhyl | Cyfraniad – Sul y Cofio | 50.00 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£4,381.80** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 79. PENODI ARCHWILWYR MEWNOL AC ARCHWILWYR ALLANOL AR GYFER 2024/25

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddo a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) ynghylch penodi archwilwyr mewnol ac archwilwyr allanol y Cyngor Tref, sef JDH Business Services (mewnol) am dros 15 mlynedd, sy'n cael eu defnyddio gan tua 60-70% o gynghorau Gogledd Cymru ac a ystyrir yn arbenigwyr yn y sector, a Swyddfa Archwilio Cymru (allanol).

Atgoffod Clerc y Dref yr aelodau fod angen datgan unrhyw fuddiant personol neu fuddiant busnes yng nghyswllt y naill archwilydd neu'i gilydd.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r ddau benodiad.*

## 80. PUMP DIWRNOD PARCIO AM DDIM

Cynghordd Clerc y Dref nad oedd y Cyngor Tref wedi defnyddio unrhyw rai o'i ddyddiau parcio am ddim hyd yma eleni, ac argymhellodd eu defnyddio

rhwng dydd Gwener, 20 Rhagfyr a dydd Mawrth, 24 Rhagfyr, i annog pobl i ddod i siopa yng nghanol y dref.

Gofynnodd Clerc y Dref am wirfoddolwyr i osod yr arwyddion arferol ar y peiriannau talu yn y chwe maes parcio a ganlyn:

Y Llyfrgell (parcio i'r anabl yn unig)
Ffordd Morley
Gorsaf y Rheilffordd
Y Tŵr Awyr
Neuadd y Dref
Stryd Gorllewin Cinmel

***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r pump diwrnod parcio am ddim o ddydd Gwener, 20 Rhagfyr tan ddydd Mawrth, 24 Rhagfyr, ac y byddai'r Cynghorydd K. R. Jones yn gosod arwyddion ym meysydd parcio'r Llyfrgell, y Tŵr Awyr a Neuadd y Dref, y Cynghorydd Mrs E. M. Chard yn gwneud hynny ym maes parcio Ffordd Morley a Gorsaf y Rheilffordd ac y byddai'r Cynghorydd A. R. James yn rhoi'r arwydd ym maes parcio Stryd Gorllewin Cinmel.*

**81. EITEM GAN AELODAEU: CASGLU GWASTRAFF YNG NGHANOL Y DREF**

Gofynnodd y Cynghorwyr K. R. Jones a Ms J. L. McAlpine am gefnogaeth y Cyngor Tref i wneud sylwadau i Gyngor Sir Ddinbych ynghylch casglu gwastraff yng nghanol y dref a chasglu'r biniau gwastraff dros ben ers cyflwyno'r system Trolibocs newydd.

Soniodd y cynghorwyr am eu rhwystredigaeth ynghylch y diffyg gwaredu sbwriel yn rheolaidd o ganol y dref yn ystod yr wythnosau diwethaf, gan arwain at groniad blêr mewn nifer o fannau.

Gwnaethant bwysleisio nad oedd hyn yn feirniadaeth ar staff Strydlun Cyngor Sir Ddinbych, yr oeddynt yn gwybod eu bod yn gweithio fel lladd nadroedd, gyda thîm bychan iawn o weithwyr parhaol a staff asiantaeth dros dro, ond nad oeddynt yn gwybod beth i'w wneud erbyn hyn i fynd i'r afael â'r broblem.

Roedd yr aelodau'n cytuno fod y sefyllfa yn peri pryder difrifol, ac fe wnaeth y rhai sydd hefyd yn gynghorwyr sir roi sicrwydd i'r Cynghorwyr Jones a McAlpine, eu bod hwythau y tu hwnt i deimlo'n rhwystredig ac wedi bod yn gwneud popeth i geisio cael clirio'r gwastraff, gyda pheth llwyddiant.

Cynghorodd aelod fod Cyngor Sir Ddinbych wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i fynd i'r afael â'r broblem gwastraff yn y Rhyl a Phrestatyn ac awgrymodd wneud sylwadau yn uniongyrchol i'r grŵp hwnnw.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref yn trosglwyddo sylwadau'r aelodau i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen.*

**82. AMSER CWESTIYNAU**

Nid oedd unrhyw aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

**83. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**84. CWMNI BUDDIANT CYMUNEDOL ADFYWIO'R RHYL – LLYTHYR O GEFNOGAETH**

Hysbysodd Clerc y Dref am dderbyn gohebiaeth gan Mr K. Gurney (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) ar ran Cwmni Buddiant Cymunedol o'r enw Adfywio'r Rhyl, yn gofyn i'r Cyngor Tref ystyried rhoi llythyr o gefnogaeth iddo i gynorthwyo gyda cheisiadau am gyllid.

***PENDERFYNWYD*** *yn anffodus nad oedd yr aelodau'n teimlo y gallent roi llythyr o gefnogaeth gan fod y digwyddiad arfaethedig yn y camau cynllunio cynharaf ac nad oedd lleoliad, ond y gwerthfawrogwyd diddordeb Mr Gurney yn fawr a bod y Cyngor Tref yn dymuno'r gorau iddo yn y dyfodol.*

**85. CYMORTH I DOILEDAU CYHOEDDUS**

Ymhellach i gofnod rhif 38 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Medi 2024, cynghorodd Clerc y Dref am oedi cyn cyflwyno'r adroddiad i Gyngor Sir Ddinbych ac awgrymodd ohirio'r eitem nes y byddai'r adroddiad wedi'i ystyried yn gynnar ym mis Rhagfyr.

***PENDERFYNWYD*** *gohirio'r eitem i gyfarfod yn y dyfodol.*

**86. CYSTADLEUAETH ADDURNO FFENESTRI ADEG Y NADOLIG**

Gofynnodd Clerc y Dref am gyfarwyddyd gan yr aelodau ynghylch dyfodol y gystadleuaeth, yn dilyn marwolaeth yr un fu'n gyrru hyn, y Cynghorydd Mrs Win Mullen-James, diwedd sefydliad Rhyl BID a'r lleihad yn y gwobrau a gynigir gan archfarchnad Morrisons.

Ychwanegodd Clerc y Dref ei fod wedi siarad â'r Cynghorydd A. R. James cyn y cyfarfod, a ddywedodd y byddai'n hoffi i'r gystadleuaeth ddarfod.

***PENDERFYNWYD*** *fod yr aelodau'n teimlo na ddylid cynnal y gystadleuaeth eleni, ond y dylai Clerc y Dref roi eitem ar yr agenda ym mis Medi y flwyddyn nesaf, i roi cyfle i'r aelodau adolygu'r gystadleuaeth a gwneud rhywbeth er cof am y Cynghorydd Mullen-James efallai.*

**87. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..……………………..

Dyddiad: …..……………………..